



MODIWL 1A RHAN C: TAFLEN FFEITHIAU MYFYRWYR

STRWYTHUR Y DIWYDIANT CIG EIDION YN Y DU

CYFLWYNIAD


Mae'r diwydiant cig eidion ym Mhrydain yn cynnwys dwy brif adran, sef yr anifeiliaid sy'n dod o wartheg magu a'r rhai sy'n sgil-gynhyrchion y diwydiant llaeth. Mae perthynas a symudiad pendant rhwng y tair prif elfen





DIWYDIANTCIG EIDION Y DEYRNAS UNEDIG

Mae tua 9.36 miliwn o wartheg yn y DU (Statista 2020) Cyfanswm nifer y gwartheg dethol a laddwyd yn 2020 oedd 2,038,202 (AHDB) Cynhyrchodd y DU 926.2 mil tonnell o gig eidion a chig llo yn 2020 (AHDB) Mae'r gadwyn cyflenwi cig eidion yn cyfrannu tua £2.8 biliwn i economi'r DU.



Source: IHS Maritime & Trade - Global Trade Atlas ©, HMRC

Ffeithiau a Ffigurau

- Cyfanswm a gafodd ei fwyta yn 2020 oedd 311.3 miliwn tonnell (Kantar 2020)
- Cyfanswm y gwariant ar gynnyrch Cig Eidion a chig llo yn 2020 oedd £2.37 biliwn (Kantar 2020)
- Mae'r DU 75% yn hunangynhaliol o ran Cig Eidion gan adael digon o le i gynhyrchwyr dyfu mwy o gig eidion ar gyfer y farchnad gartref
- Mae 81% o'r cig eidion a werthir yn y DU o dan logo Prydain, ond mae Aldi, Budgens, Co-op, Lidl, M&S, Morrison's a Waitrose i gyd yn defnyddio Cig Eidion 100% o Brydain.
- Allforiodd y DU 119,385 tonnell o gig eidion ffres ac wedi rhewi yn 2020. Mae allforion yn mynd yn bennaf i'r UE.
- Mewnforiodd y DU 242,828 tonnell o gig eidion yn 2020.

Table 2.19 UK beef and veal balance sheet*


	2018	2019	2020
	(000 tonnes)		
Production	898.4	914.5	932.1
Imports	453.7	381.7	376.9
Exports	147.1	174.3	152.7
Total consumption	1,205.0	1,121.9	1,156.2
Self sufficiency (%)	74.6	81.5	80.6

* Total supplies of meat available for consumption. All weights are carcase weight equivalent.
Source: AHDB, Defra, IHS Maritime & Trade - Global Trade Atlas®/HMRC, ONS.

CYMRU

Mae'r diwydiant cig coch yn eithriadol o bwysig i amaethyddiaeth Cymru ac i economi Cymru. Mae gan amaethyddiaeth rôl allweddol o ran cynnal tirwedd Cymru, tra'n cefnogi cydlyniant cymunedol gwledig, diogelu adnoddau naturiol helaeth Cymru a darparu manteision diwylliannol a lles ychwanegol.

Figure 2.1 Beef cattle density in Wales, June 2019



Source: GI Services Branch, DEPC, Aberystwyth © Crown copyright

5% of beef from Wales is consumed in Wales, approximately 80% is consumed in the rest of the UK, and 15% is consumed in export markets.



Source: HCC estimates based on UK HMRC data.

Mae gan Cig Eidion Cymru statws Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI) yr un fath â Chig Oen Cymru.



Dyfarwyd statws PGI gan yr UE i Gig Eidion Cymru yn 2002 ac i Gig Oen Cymru yn 2003. Ar 1 Ionawr 2021, cafodd yr holl enwau cynnyrch a ddiogelir yn yr UE eu diogelu o dan y Cynllun Gwybodaeth Ddaearyddol hefyd - gan gynnwys Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru.

Amcanion PGI:

- Diogelu enw da'r cynnyrch bwyd rhanbarthol
- Hyrwyddo gweithgarwch gwledig ac amaethyddol
- Helpu cynhyrchwyr i gael pris premiwm am eu cynnyrch dilys yn gyfnewid am "ymdrech wirioneddol i wella ansawdd"
- Cyfleu negeseuon clir i ddefnyddwyr am darddiad cynnyrch

Mae statws PGI Cig Eidion Cymru yn gwarantu dilysrwydd a chywirdeb y brand. Mae manteision y dirwedd naturiol yn cael eu defnyddio i'r eithaf gyda thechnegau ffermio traddodiadol amlwg i gynhyrchu cig eidion i safon uchel.

Mae PGI yn sicrhau defnyddwyr ei bod yn bosib olrhain Cig Eidion Cymru yn llawn, gan gydnabod tarddiad a rhinweddau unigryw'r cynnyrch. Dim ond Cig Eidion Cymru PGI sy'n sicr o gael ei gyrchu o wartheg sy'n cael eu geni a'u magu yng Nghymru, y gellir eu holrhain yn llawn, ac sydd wedi'u lladd a'u prosesu mewn lladd-dai neu weithfeydd torri a gymeradwywyd gan HCC.